

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af o Orffennaf 2021.

- 1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) - Prenteg, Richard Parry - Bryncir, John Jones Clifford Williams - Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams - Golan, Huw Pritchard, Delyth Evans, Manon Jones Evans - Pentrefelin, Dafydd Thomas, Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards - Penmorfa.
- 2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Gwilym Evans, Edward Evans, Amanda N Owen, Cynghorydd Alwyn Gruffydd.
- 3 **Ddim yn bresennol** - neb.
- 4 **Datgan buddiant** - neb.
- 5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** - Cofnodion 3/6/21 Clifford Williams yn cynnig ei bod yn gywir a Megan Lloyd Williams yn eilio.
- 6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Map o Ward Dolbenmaen - rhannwyd y copi diweddaraf o'r map. Os nad yw'n dderbyniol, bydd rhaid ystyried cael cwmni mapiau i wneud y gwaith.

Llwybrau Cyhoeddus - derbyniwyd ymddiheuriad gan Wasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd fod y gwaith ar y llwybrau cyhoeddus heb ei gwblhau. Disgwylir y bydd Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor yn dychwelyd i'w waith yn fuan a bydd y materion llwybrau yn cael sylw.

Gêr y Llwyn, Pentrefelin - Cerrig wedi ei gosod yn yr afon. Derbyniwyd copi o lythyr mae Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi ei yrru at berchennog y tŷ. Gofynnwyd i'r perchennog beidio gwneud unrhyw waith ychwanegol wrth y cwrs dŵr a bod disgwyl iddo gysylltu gyda swyddog o'r adran i drefnu cyfarfod.

Ceir yn parcio ar y lôn tu allan i Gêr y Llwyn, Pentrefelin - Clerc angen rhifau cofrestru'r faniau a cheir sy'n parcio ar y lôn er mwyn ei gyrru at yr Heddlu.

Mynwent Bethel, Golan - mainc wedi cael ei harchebu.

Cambrian Terrace, Garndolbenmaen - biniau a bocsys ail gylchu yn cael eu gadael allan ar y Green. Cyfarfu'r Cynghorydd John Jones gydag aelod o staff yr Adran Gorfodaeth Stryd, Cyngor Gwynedd. Nid yw lleoliad y biniau yn achosi unrhyw rwystr i'r llwybr. Trafodwyd y posibilrwydd o ofyn i berchnogion y tai gyfrannu at brynu caetshis i gadw a gorchuddio'r biniau ar y Green. Clerc i holi'r Adran Gorfodaeth Stryd os oes ganddynt fanylion am berchnogion y tai ac yna llythyru gyda hwy.

Materion Priffyrdd

Draen wedi cau rhwng Pont Wern a Thŷ Bryn Derwen, Pentrefelin - trefnir i wagio'r gwli pan fydd y peiriant nesaf yn yr ardal.

Prenteg

Coed yn tyfu allan ar y lôn - bydd yr Archwiliwr Priffyrdd yn cael golwg ar y safle a threfnu unrhyw waith sydd angen ei wneud.

Penmorfa - Caeadau BT - Asiantaeth Cefnffyrdd wedi bod yn cadw llygad ar rhai o'r caeadau ac am gysylltu gyda BT i ofyn iddynt roi sylw i'r rhai sy'n creu anhwylustod.

Newid enw eiddo o Cae yr Eithin Tew i Black Lake Cottage - adroddwyd fod y Cynghorwyr wedi methu cyfarfod gyda pherchennog yr eiddo. Ymddengys fod y tŷ yn cael ei osod ac nid yw'r perchennog yn byw yno.

Sedd Wag Garndolbenmaen

Mae'r Cynghorydd Dylan Pritchard wedi sefyll lawr o'i sedd. Penderfynwyd trafod y mater ym mis Medi.

7 **Mynwentydd**

Mynwent Bethel

Derbyniwyd 2 gwyn yn ystod mis Mehefin am dyfiant y gwair yn y Fynwent. Trefnwyd cyfarfod yn y Fynwent gyda'r contractwyr. Gall y gwaith torri gymryd mwy na diwrnod a phenderfynwyd yn y fath amgylchiadau, y bydd y Contractwr yn gosod arwydd i hysbysu'r cyhoedd

o hyn. Hefyd, mi fydd y Contractwr yn torri'r gwair yn is ac yn clirio'r holl doriadau o dir y Fynwent.

Tynnwyd sylw'r Cynghorwyr at y ffaith fod torwyr beddau yn gadael pridd tu ôl i'r giât isaf a seiri meini yn gadael tywyrch ym môn y wal. Clerc i gysylltu gyda'r ymgymrwyr angladdol sy'n defnyddio'r Fynwent i ofyn iddynt sicrhau fod y torwyr beddau yn clirio'r holl bridd o'r Fynwent. Hefyd i gysylltu gyda'r seiri meini.

Carreg fedd gyda thâp o'i amgylch - derbyniwyd pris gan y Brodyr Kerr am atgyweirio'r bedd. Penderfynwyd rhoi manylion y garreg yn y papurau bro i geisio cysylltu gyda'r teulu.

Mynwent Prenteg

Derbyniwyd llythyr gan Liz Saville Roberts AS yn mynegi pryder am gyflwr y lôn at y Fynwent a'r diffyg arwyddion yn dangos ei leoliad.

Hefyd derbyniwyd e-bost gan berchnogion eiddo ar y lôn yn holi am ddyddiad cychwyn y gwaith o atgyweirio'r lôn o'r lôn fawr at y grid gwartheg.

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Brodyr Evans yn gofyn iddynt gadarnhau dyddiad cychwyn y gwaith.

Clerc i ymateb i lythyr yr Aelod Seneddol.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybrau Pentrefelin wedi cael eu torri. Clerc i gysylltu gyda'r contractwr sy'n torri llwybrau Garndolbenmaen a Bryncir i holi os yw'r gwaith wedi cael ei wneud.

9 Adroddiad Pentrefi

Bryncir

Glandwyfach - damwain arall wedi digwydd yn ddiweddar. Gyda gwaith ail-wynebu yn cael ei wneud, byddai hyn yn gyfle wrth ail-farcio'r lôn i wneud y cyfarwyddiadau yn gliriach. Clerc i gysylltu gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

Garndolbenmaen

Rhif 3 Mynydd Glas - brigau yn tyfu drosodd i'r llwybr ac yn gwneud hi'n anodd defnyddio'r blwch postio. Cynghorydd John Jones am ymweld â pherchennog yr eiddo.

Penmorfa

Gwair ar ochor y lôn o'r Bryn i gyfeiriad Golan. Trigolion sy'n cerdded methu camu i'r ochor pan fydd cerbydau ar y lôn. Clerc i gysylltu gydag Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

Golan

Safle gwaith dŵr angen sylw. Clerc i roi manylion cyswllt Swyddog y Bwrdd Dŵr i'r Cynghorydd Megan Lloyd Williams.

10 Cae Chwarae Penmorfa

Coed onnen ar y cae wedi heintio. O ganlyniad, nid yw wedi bod yn bosib gosod yr offer garddio. Derbyniwyd 3 pris ar gyfer tynnu'r coed i lawr. Penderfynwyd cynnig y gwaith i Gwmni Pearson Cyf. Cynghorydd Megan Lloyd Williams yn cynnig a'r Cynghorydd John Jones yn eilio.

Gwair wedi cael ei dorri yn pwyso ar y ffens a gosod giât ar y fynedfa i'r ardal plannu. Penderfynwyd gofyn i Bwyllgor y Cae Chwarae drafod hyn ac adrodd yn nôl i'r Cyngor Cymuned.

11 Cyngor Tref Nefyn - creu memorandwm o ddealltwriaeth

Derbyniwyd gwahoddiad gan Gyngor Tref Nefyn i fynychu cyfarfod i greu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn â Pholisi Iaith Cyngorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd. Clerc i fynychu'r cyfarfod.

12 Llyfrau Ariannol

Cyflwynwyd copi o'r cyfrifon i'r Cyngor.

Taliadau yn fwy o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hyn yn rhannol oherwydd derbyniwyd grant o £8940 gan Barc Cenedlaethol Eryri ar

gyfer Cae Chwarae Penmorfa a gwariwyd £1756 yn atgyweirio lloches bws.

Derbyniwyd y cyfrifon gan y Cyngor. Cynghorydd Dafydd Thomas yn cynnig a'r Cynghorydd Megan Lloyd Williams yn eilio. Bydd y Ffurflen Flynyddol yn cael ei yrru at y Cadeirydd i gael ei arwyddo.

Ymddiswyddiad y Clerc

Derbyniwyd ymddiswyddiad y Clerc. Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu.

13 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd - Rhybudd Cau'r Ffordd Dosbarth III gyferbyn â Warws Felin, Llecheiddior. Rhannwyd 17/6/21, A487 Bryncir i Benmorfa gwaith arwynebu. Rhannwyd 20/6/21.

Gohebiaeth ychwanegol

- a Parc Cenedlaethol Eryri - Gweminarau Adolygu Mesurau Rheoli Ymwelwyr. Manylion recordiad o'r noson.
- b Cyngor Tref Nefyn - Gohirio cyfarfod - Uno i ddatrys yr argyfwng ail gartrefi.
- c Cyngor Tref Nefyn - Llythyr at Lywodraeth Cymru - argyfwng ail gartrefi.
- ch Cyngor Tref Criccieth - Llythyr at Lywodraeth Cymru - Argyfwng yr Ail Gartrefi a'r Farchnad Dai.
- d Cyfoeth Naturiol Cymru - Risg Llifogydd Porthmadog.
- dd Unllais Cymru - Bwletin.
- e Unllais Cymru - Hyfforddiant Mehefin a Gorffennaf.
- f Unllais Cymru - Aelod Staff Newydd Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer natur.

14 **Cynllunio**

Rhestrau - 11/6, 18/6/21.

C21/0583/36/CR Eglwys Sant Cynhaearn Pentrefelin LL52 OPS - Gosod rendr calch ar 3 ochor o'r adeilad. Dim gwrthwynebiad.

C21/0430/35/DT Felin Llecheiddior, Ynys, Criccieth LL51 9EZ - Estyniad deulawr i gefn tŷ annedd. Dyddiad cau gwreiddiol 4/6/21. Cafodd y cais i yrru at Gyngor Tref Criccieth trwy gamgymeriad. Cafwyd estyniad i'r cyfnod ymgynghoriad swyddogol. Dim gwrthwynebiad.

Ychwanegwyd

C21/0603/36/DT Tŷ Capel Bethlehem, Prenteg, Porthmadog. LL49 9SP
Cais ar gyfer codi modurdy domestic. Dim gwrthwynebiad.

15 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian:

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	= £ 253.33
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 63.20
Ffi flynyddol Deddf Diogelu Data	= £ 35.00
<u>Ychwanegwyd</u>	
Cymru1 Cyf	= £ 350.40

Derbyniadau

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,844.31 Cyfredol £22,317.62

16 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan

- Ceisiadau Cynllunio
- Coed Onnen Cae Chwarae Penmorfa
- Carreg fedd Mynwent Bethel
- Ymddiswyddiad Clerc

Gwefan: Cofnodion mis Mehefin, Hysbyseb Swydd Clerc, Hysbysiad Archwiliad.